Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Llanfair Caereinion
Mount Road
Llanfair Caereinion
Y Trallwng
Powys
SY21 0AT

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2018**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn.

**© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 28/12/2018**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Llanfair Caereinion. Mae'n cwrdd mewn adeilad hunangynhaliol yn nhref Llanfair Caereinion, yn awdurdod lleol Powys. Mae'r lleoliad yn darparu addysg am bum bore'r wythnos rhwng 9.00 y bore ac 11.30 y bore yn ystod tymhorau'r ysgol.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i gymryd hyd at 16 plentyn ar unrhyw adeg benodol ac yn derbyn plant rhwng dwy a phedair blwydd oed. Ar hyn o bryd, mae 13 o'r plant tair blwydd oed yn cael eu hariannu ar gyfer addysg y blynyddoedd cynnar.

Mae bron pob un o'r plant yn dod o gefndir gwyn Prydeinig ac mae ychydig o'r plant yn siarad Cymraeg fel eu mamiaith. Ar hyn o bryd, nid oes un plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r lleoliad yn cyflogi tri ymarferydd cymwysedig gan gynnwys yr arweinydd. Dechreuodd yr arweinydd yn ei swydd ym mis Medi 2008.

Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ddiwethaf ym mis Chwefror 2016. Arolygodd Estyn y lleoliad ddiwethaf ym mis Mai 2013.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- y rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn
- y rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) llwyddiannus
- bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn gyfrifol a chwrtais
- ymarferwyr yn cynllunio cwricwlwm diddorol, sy'n cefnogi dysgu'r plant yn effeithiol
- defnydd llwyddiannus o'r Gymraeg gan yr ymarferwyr yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau ieithyddol y plant
- yr addysgu'n gadarn ac yn creu parodrwydd ymysg y plant i weithio a dysgu'n gynhyrchiol
- ymarferwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plant
- defnydd effeithiol o'r adeilad a'r ardal allanol i ysgogi'r plant i wella'u medrau

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- yr arweinydd yn rhoi cyfarwyddyd clir i holl waith y lleoliad ac mae ganddi ddisgwyliadau cadarn o'r ymarferwyr a'r plant
- y pwyllgor rheoli ymroddgar sy'n gefnogol ac yn monitro'r ddarpariaeth yn ddeallus a chyfrifol
- diwylliant sefydlog o hunanarfarnu, sy'n sicrhau gwelliannau cyson dros amser
- ymarferwyr yn elwa o hyfforddiant a datblygiad proffesiynol pwrpasol
- partneriaethau llwyddiannus gyda'r rhieni ac asiantaethau allanol, sy'n cefnogi'r ddarpariaeth a dysgu'r plant yn effeithiol
- yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli yn blaenoriaethu gwariant yn synhwyrol i wella'r ddarpariaeth er mwyn gwella'r profiadau a deilliannau'r plant

## Argymhellion

A1 Cynllunio gweithgareddau i ddatblygu medrau datrys problemau y plant, yn enwedig y plant mwyaf galluog

A2 Gweithredu ar ganfyddiadau'r asesu i gynllunio'r camau nesaf yn nysgu plant unigol

A3 Gwella'r cyfleoedd i addysgu'r plant am wahanol ddiwylliannau'r byd

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn. Maent yn datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh ar draws yr holl feysydd dysgu yn effeithiol.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwrando'n astud ac yn ymateb i holi'r ymarferwyr yn ystod sesiynau torfol yn frwdfrydig. Maent yn chwarae rhannau gweithredol yn fwriadus yn y sesiynau hyn, er enghraifft trwy arddangos stori'r dydd mewn llyfr i blant eraill. Mae'r mwyafrif yn defnyddio patrymau iaith cywir ac ymadroddion diddorol yn gwbl annibynnol yn y Gymraeg, mewn chwarae anffurfiol ac yn ystod tasgau ffocws. Er enghraifft, maent yn trafod cymeriadau a digwyddiadau storïau yn hyderus. Mae'r mwyafrif o'r plant yn ynganu'n glir ac yn defnyddio'r iaith yn bwrpasol i fynegi barn a'u hoffterau personol, fel blas siocled a nodweddion y tywydd. Maent yn dilyn cyfarwyddiadau yn brydlon ac yn canu hwiangerddi a chaneuon yn y Gymraeg yn frwdfrydig. O ganlyniad, mae'r mwyafrif yn siaradwyr naturiol a deallus.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos diddordeb mewn llyfrau ac yn ystyried diben y stori a'r lluniau yn ddeallus. Maent yn deall pwrpas yr ysgrifen ac yn ailadrodd trefn storïau yn synhwyrol. Er enghraifft, maent yn trafod nodweddion cymeriadau cyfarwydd a'u hanturiaethau yn effeithiol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn trin a thrafod llyfrau yn yr ardaloedd darllen, naill ai dan do neu yn yr awyr agored, fel darllenwyr cynnar hyderus.

Mae llawer o'r plant yn creu marciau yn effeithiol wrth arbrofi â gwahanol gyfryngau. Maent yn dyfalbarhau â phrofiadau ysgrifennu cynnar yn ddiwyd. Er enghraifft, maent yn cofnodi archebion unigolion ar bapur yn llwyddiannus wrth gownter y caffi chwarae rôl. Mae llawer yn esbonio pwrpas ysgrifennu yn dda wrth gofnodi eu henwau yn bwrpasol ar fwrdd gwyn i gadarnhau eu presenoldeb yn y lleoliad. Mae ychydig yn adnabod eu henwau eu hunain yn gadarn. Yn ogystal, maent yn dechrau ffurfio llythrennau'r wyddor a rhifau mewn ffurfiau eithaf adnabyddus ar bapur a byrddau ysgrifennu electronig.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn adnabod, yn enwi ac yn cyfrif rhifau i bump heb gymorth oedolyn yn dda. Maent yn defnyddio iaith fathemategol yn bwrpasol wrth drafod siapiau a'u cymharu, a rhifo cnau castan i gyfatebu â chyfarpar mathemategol yn gywir. Mae ychydig yn cyfrif i ddeg a thu hwnt yn gywir heb anogaeth. Mae llawer o'r plant yn didoli gwrthrychau gwahanol yn ôl lliw a siâp yn llwyddiannus ac yn rhifo sawl gwrthrych o bob math sydd ganddynt yn gywir. Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio rhifau yn bwrpasol mewn gweithgareddau ymarferol, er enghraifft wrth drefnu wyth coes o amgylch corff y pry copyn. Mae'r rhan fwyaf yn deall y gwahaniaethau mewn maint a phwysau wrth gymharu gwrthrychau â'i gilydd ac os ydynt yn 'fach' neu'n 'fawr', yn 'llai' neu'n 'fwy' ac yn 'drwm' neu'n 'ysgafn'.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio technoleg yn fedrus. Maent yn gwneud hyn trwy ddefnyddio llechi, teganau a dyfeisiau electronig yn hyderus mewn

gweithgareddau ffocws a pharhaus. O ganlyniad, mae eu defnydd o raglenni addysgol, apiau a chaledwedd yn datblygu eu medrau meddwl a chyfleoedd i ymchwilio yn effeithiol.

Mae llawer o'r plant yn datrys problemau yn briodol. Fodd bynnag, nid ydynt yn meddwl drostyn nhw eu hunain yn gwbl hyderus er mwyn datrys problemau yn gwbl annibynnol. Maent yn dibynnu'n ormodol ar gyfarwyddiadau a chefnogaeth oedolion i lwyddo mewn tasg, yn enwedig y plant mwyaf galluog.

Mae llawer o'r plant yn dewis offer a deunyddiau yn effeithiol i ymestyn eu creadigrwydd. Er enghraifft, maent yn defnyddio toes i greu pryd o fwyd ar blât a threfnu llygaid, pigau a brwyn lliwgar i greu draenogod allan o datws. Mae bron pob un o'r plant yn mwynhau gwrando ar gerddoriaeth yn astud ac maent yn perfformio'n frwdfrydig wrth ganu a gwneud ystumiau i gyfatebu â'r geiriau.

Mae bron pob un pletnyn yn datblygu eu medrau corfforol yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn gyrru beiciau a cherbydau'n fywiog yn yr awyr agored a llithro a dringo'n anturus ar gyfarpar allanol.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r plant yn uniaethu'n dda ag oedolion ac ymwelwyr wrth iddynt gyrraedd a gadael y lleoliad. Mae llawer yn dangos cymhelliant a gwydnwch wrth ymateb i weithgareddau difyr dan arweiniad oedolion. O ganlyniad, maent yn canolbwyntio'n bwrpasol ar eu dysgu ac yn cydweithio â'r ymarferwyr yn frwdfrydig.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn mwynhau'r tasgau ym mhob maes dysgu ac yn rhannu a gweithio'n synhwyrol gyda'i gilydd. Maent yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at brofiadau newydd, fel arbrofi â thywod, trwy lenwi blychau a chymharu'r cyfaint, a phlannu blodau mewn ardaloedd plannu'r lleoliad.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dechrau mynegi barn a'u hoffterau personol yn effeithiol. Mae hyn yn amlwg wrth iddynt benderfynu parhau â thasgau penodol neu ddechrau gweithgareddau newydd o'u dewis eu hunain. Mae llawer yn esbonio pa feysydd dysgu sy'n cynnwys eu hoff weithgareddau yn feddylgar, fel llenwi berfa yn yr ardal adeiladu. Maent yn gwbl hyderus a chadarn wrth nodi pa dasgau ymarferol sydd o'r diddordeb mwyaf iddynt. Gwelir hyn wrth iddynt ddewis coginio yn y gegin fwd neu i ddyfalbarhau â thynnu hadau allan o bwmpen. O ganlyniad, mae llawer o'r plant yn ddysgwyr hyderus ac yn gweithio'n fwriadus yn ystod gweithgareddau chwarae.

Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda ac maent yn gwrtais. Maent yn dangos parch wrth ymateb yn gyfrifol i oedolion a'i gilydd. Mae bron pob un yn gwrando'n astud ar oedolion, er enghraifft wrth weini diod a gwisgo'u cotiau i chwarae yn yr awyr agored. Mae bron pob un o'r plant yn golchi eu dwylo'n drylwyr, heb ormod o anogaeth gan ymarferwyr, ar ôl defnyddio'r toiled, chwarae anniben a gweithgareddau yn yr awyr agored. Maent yn deall fod glendid yn gefn i osgoi heintiau drwg a phwysigrwydd cynnal bywydau iachus yn llwyddiannus.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ymarferwyr yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys, sy'n adlewyrchu ethos y cyfnod sylfaen yn llwyddiannus. Mae'r holl brofiadau dysgu yn diwallu diddordebau

ac anghenion y plant yn effeithiol drwy ddarparu cyfleoedd gwerthfawr iddynt ddysgu'n gynhyrchiol. Enghraifft effeithiol o hyn yw'r cyfle i blant edafu darnau o basta ar linyn a chymharu sawl darn sydd ar bob llinyn.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y plant yn bwrpasol. Maent yn annog y plant i ddewis offer addas i ddatrys problemau ymarferol sy'n gysylltiedig â'r thema gyfredol. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn bwydo'r plant ag ymadroddion cyfoethog wrth iddynt ddisgrifio nodweddion yr hydref, trafod lliwiau'r dail ac astudio bywyd y draenog.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd defnyddiol i blant fynegi eu barnau eu hunain ac i ddatblygu eu medrau creadigol a mynegiannol yn llwyddiannus. Maent yn annog y plant yn effeithiol i chwarae rôl yn y caffi a'r ardal gwisgo i fyny wrth ddisgrifio ffrogiau ei gilydd wrth edrych yn y drych. Yn ogystal, maent yn canolbwyntio ar fedrau echddygol manwl y plant yn effeithiol yn yr ardaloedd arbrofol. Er enghraifft, maent yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i'r plant ddefnyddio sisyrnau a glud i greu pry copyn a llwyau i arllwys siocled ar afalau. Mae'r gweithgareddau hyn yn adeiladu ar ddealltwriaeth a medrau presennol y plant yn ddeallus. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr yn cynllunio'n ddigon bwriadus i ddatblygu medrau datrys problemau y plant yn gwbl annibynnol, yn enwedig heriau i'r plant mwyaf galluog.

Mae darpariaeth y lleoliad ar gyfer datblygu a chodi ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg yn gadarn. Mae'r ymarferwyr yn fodelau da o'r iaith i'r plant. Maent yn annog y plant i ddefnyddio'r iaith gymaint ag y bo modd trwy weithgareddau difyr ac maent yn ymhyfrydu yn nhafodiaith yr ardal. O ganlyniad, gan ystyried eu mannau cychwyn, mae dealltwriaeth y mwyafrif o'r plant o'r Gymraeg yn datblygu'n gynyddol, a'u defnydd o'r iaith yn gwella'n gyson.

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau, dathliadau a diwylliant Cymru yn llwyddiannus. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Santes Dwynwen, coginio cawl a phobi cacennau traddodiadol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau TGCh y plant yn dda. Mae'r lleoliad yn cynnig cyfleoedd pwrpasol i'r plant ddefnyddio ystod o offer fel llechi, dyfeisiau a theganau electronig.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio ar gyfer datblygu medrau corfforol y plant yn effeithiol, er enghraifft drwy adael iddynt ddringo ar gyfarpar anturus tu allan, dawnsio yn fywiog a chydbwyso gyda'i gilydd ar un goes. Yn ogystal, mae pwyslais effeithiol ar ddatblygu creadigrwydd y plant trwy weithgareddau fel arbrofi â phaent a chwarae rôl wrth y gegin fwd.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o ymweliadau i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant ac i godi ymwybyddiaeth y plant yn fwriadus o'u milltir sgwâr. Mae'r profiadau'n cynnwys ymweliadau â'r llyfrgell, busnesau lleol yn y dref a chanolfan yr henoed. Mae nifer o ymwelwyr yn ymweld â'r lleoliad fel swyddogion y gwasanaethau brys a ffermwyr ag ŵyn. Mae'r cyfleoedd hyn yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i'r plant ddysgu am rolau pobl yn eu cymuned.

**Addysgu: Da**

Mae gan yr holl ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o athroniaeth y cyfnod sylfaen ac maent yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i sicrhau bod y gofynion yn cael eu bodloni. Maent yn darparu ystod eang o gyfleoedd buddiol i blant ddysgu trwy chwarae a phrofiadau ymarferol, yn yr adeilad a'r awyr agored. O ganlyniad, mae'r holl ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth gyfoes am ddatblygiad plant.

Mae disgwyliadau cadarn gan yr ymarferwyr ar gyfer y rhan fwyaf o blant ac maent yn herio plant yn effeithiol ar y cyfan, yn unol â'u hanghenion a'u galluoedd. Maent yn ymyrryd yn chwarae'r plant yn ôl yr angen yn briodol, er mwyn sicrhau eu bod yn deall y dasg. Mae hyn yn cymell y rhan fwyaf o blant i berfformio ar eu gorau'n gyson yn ystod tasgau ffocws a gweithgareddau parhaus.

Mae'r ymarferwyr yn holi'r plant yn fedrus er mwyn datblygu eu medrau cyfathrebu, rhif a TGCh. Maent yn amseru sesiynau torfol yn llwyddiannus i gynnal diddordeb pob un plentyn yn effeithiol.

Mae'r ymarferwyr yn cyfarch y plant yn gynnes ac yn fywiog wrth iddynt gyrraedd, ac mae'r bywiogrwydd hyn yn parhau trwy gydol y sesiynau. Mae'r ymarferwyr yn rheoli ymddygiad y plant yn gadarnhaol ac mae'r plant yn gwrando'n astud ar esboniadau'r ymarferwyr. Mae hyn yn annog cyfranogiad a mwynhad y plant yn yr holl weithgareddau yn llwyddiannus. Mae'r ymarferwyr yn dosrannu eu cyfrifoldebau rhwng tu mewn i'r adeilad a'r ardal allanol yn effeithiol. O ganlyniad, mae'r plant yn cael cyfleoedd da i symud yn annibynnol rhwng yr ardal fewnol a'r ardal allanol.

Mae'r gweithdrefnau ar gyfer asesu a chofnodi cyflawniadau plant yn ddefnyddiol. Mae'r dystiolaeth yn cyfatebu'n gywir â deilliannau plant unigol gan ddefnyddio proffil y cyfnod sylfaen, wrth iddynt ddatblygu yn y lleoliad. Mae'r holl ymarferwyr yn cofnodi'r asesiadau dyddiol yn rheolaidd a chyson. Maent yn trafod gyda'r plant beth mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith yn synhwyrol. Fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio'r asesiadau dyddiol yn ddigon cyson i dargedu'r camau nesaf yn nysgu plant unigol yn eu cynllunio.

Mae'r ymarferwyr yn rhannu gwybodaeth addas yn anffurfiol gyda rhieni a gofalwyr ar ddiwedd y sesiwn. Mae'r lleoliad yn darparu llyfrynnau ac adroddiadau defnyddiol i rieni pan fydd eu plentyn yn gadael y lleoliad i fynd i'r ysgol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd effeithiol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plant. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio trafodaethau grŵp yn synhwyrol i annog y plant i ystyried teimladau ei gilydd. Mae hyn yn meithrin gwerthoedd fel tegwch a pharch tuag at ei gilydd yn llwyddiannus.

Mae'r ymarferwyr yn creu cyfleoedd gwerthfawr i'r plant eistedd yn dawel ac i drafod a gwrando ar oedolion a phlant eraill yn feddylgar. Er enghraifft, mae plant yn cymryd eu tro'n gwrtais wrth iddynt rannu eu byrbrydau ac arllwys diod cyn iddynt ddechrau bwyta'u bwyd. Yn ystod y sesiynau hyn, mae cyfleoedd pwrpasol ar gael i'r plant fynegi'r rhesymau dros eu dewisiadau, wrth iddynt drafod eu byrbrydau a'u diod. Mae trefniadau effeithlon ar gael i gefnogi iechyd a lles plant, gan gynnwys gweithdrefnau effeithiol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. O ganlyniad, mae'r plant

yn deall bod ffrwythau, llysiau ac ymarfer corff yn dda i'w cyrff a'u hiechyd yn gyffredinol.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant ailgylchu papur, cardfwrdd, nwyddau plastig a bwyd. Mae'r gweithgareddau hyn yn datblygu dealltwriaeth y plant o gynaliadwyedd yn bwrpasol.

Mae'r lleoliad yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol sy'n dileu unrhyw fath o ymddygiad annerbyniol. Mae'r lleoliad yn amgylchedd diogel ac mae ymarferwyr yn gofalu'n ddiwyd am y plant pan fyddant yn cyrraedd, yn ystod y sesiwn, a phan gânt eu casglu. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae trefniadau cadarn ar gyfer cefnogi unrhyw blentyn ag anghenion ychwanegol. Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n agos ac yn arsylwi plant yn ofalus wrth nodi unrhyw bryderon. Maent yn gweithredu ar y rhain trwy gyfathrebu â rhieni a derbyn cyngor gan asiantaethau arbenigol dan arweiniad yr awdurdod lleol. Mae'r lleoliad yn cadw cofnodion ffurfiol o sylwadau ychwanegol i'w helpu i olrhain cynnydd y plant hyn yn drylwyr.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff yr holl blant gyfle cyfartal i'r holl feysydd dysgu a'r offer. Mae gan yr ymarferwyr adnabyddiaeth drylwyr o bob plentyn ac mae eu hunigolrwydd yn cael ei gydnabod yn llwyddiannus trwy drafodaethau dyddiol. Mae'r ymarferwyr yn herio a chefnogi plant yn ddyddiol mewn modd cadarnhaol, gofalus a theyrngar.

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ethos cadarnhaol drwy ei weithgareddau bob dydd a'r agwedd a fabwysiadir gan yr ymarferwyr. Mae pawb yn rhoi pwyslais priodol ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth, er enghraifft drwy ddathlu'r Flwyddyn Newydd Dsieineaidd yn flynyddol. Fodd bynnag, nid yw'r lleoliad yn addysgu'r plant am wahanol wyliau a diwylliannau'r byd yn ddigon effeithiol.

Mae'r lleoliad yn defnyddio adnoddau'n llwyddiannus ar y cyfan i fodloni gofynion y cyfnod sylfaen ac anghenion plant. Caiff ystod eang yr adnoddau diddorol eu defnyddio'n effeithiol mewn gweithgareddau parhaus a thasgau ffocws i gyfoethogi'r dysgu. Mae'r adnoddau'n hygyrch i bob un o'r plant, ac yn hyrwyddo eu synnwyr o gyfrifoldeb yn bwrpasol. Mae gan y lleoliad ddigon o adnoddau TGCh i ddatblygu medrau'r plant yn llwyddiannus.

Mae'r adeilad o ansawdd da, yn cael ei gynnal yn effeithiol ac mae'n ddiogel. Mae'r adnoddau allanol yn cael eu defnyddio'n rheolaidd. Mae'n cynnwys ardaloedd tyfu a phlannu, cyfarpar i ddringo a buarth bach i redeg o gwmpas a gyrru beiciau. Yn ogystal, mae'r ymarferwyr yn defnyddio cyfleusterau'r ardal leol yn synhwyrol, fel y dref a busnesau lleol.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r arweinydd yn darparu cyfeiriad bwriadus ar gyfer arferion dyddiol a thymor hir y lleoliad. Mae hi'n sicrhau bod yr amcanion, y cynlluniau strategol a pholisïau'r

lleoliad yn gwbl weithredol.  Mae hi a'r ymarferwyr yn canolbwyntio'n gadarn ar fodloni anghenion y plant.  O ganlyniad, maent yn gwella'r ddarpariaeth yn rheolaidd i effeithio'n llwyddiannus ar gynnydd y plant.

Mae'r arweinydd yn arwain tîm o ymarferwyr ymroddgar ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o'r plant.  Mae'r arweinydd yn cydweithio'n effeithiol ag eraill, sy'n llwyddo i annog yr holl ymarferwyr i wella'u harferion mewn ffyrdd synhwyrol a chefnogol.  O ganlyniad, mae eu gwaith dyddiol yn gadarnhaol ac yn hyrwyddo a chynnal gwelliannau yn llwyddiannus dros amser.

Mae'r arweinydd yn rhannu gwybodaeth am arferion y lleoliad yn bwrpasol gyda phob un o'r ymarferwyr.  Maent yn cyfarfod yn rheolaidd i gynllunio'r cwricwlwm a gweithgareddau cysylltiedig.  Mae hyn yn sicrhau bod pob un ymarferwr yn deall eu rolau'n llawn ac yn canolbwyntio ar anghenion y plant yn synhwyrol.  Yn ogystal, maent yn ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol yn dda, fel datblygu strategaethau llythrennedd, rhifedd a TGCh a chanolbwyntio ar wella safonau'r plant yn y Gymraeg.

Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn gweithio'n agos iawn gydag aelodau'r pwyllgor rheoli cadarn.  Mae'r arferion goruchwylio a gwerthuso rheolaidd yn sicrhau bod yr arweinydd yn gwneud y defnydd gorau o arbenigedd ymarferwyr.  Mae hyn yn hynod amlwg mewn tasgau ymarferol, sy'n seiliedig ar themâu penodol fel 'Yr Hydref'.

Mae'r pwyllgor rheoli'n derbyn gwybodaeth gyfredol am arferion y lleoliad gan yr arweinydd.  Maent yn cyfarfod yn rheolaidd i fonitro arferion y lleoliad yn drylwyr ac i gefnogi'n ariannol.  Maent yn herio'r lleoliad yn gyson fel ffrindiau beirniadol i wella'r ddarpariaeth ac yn cynnal gwerthusiadau pwrpasol i ddatblygu arbenigedd yr ymarferwyr yn effeithiol.  Enghraifft effeithiol o hyn yw gwella'r adnoddau yn yr ardal allanol a chyllido cyfarpar technolegol newydd fel byrddau ysgrifennu a llechi electronig.

**Gwella ansawdd:  Da**

Mae'r gweithdrefnau i hunanarfarnu arferion a gweithredoedd y lleoliad yn drylwyr. Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn monitro safonau'r plant ac ansawdd y ddarpariaeth yn gyson, trwy weithdrefnau meintiol yr awdurdod lleol.

Mae'r arweinydd yn gwneud defnydd synhwyrol o'r gweithdrefnau i nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu ar gyfer y lleoliad.  Mae barnau'r ymarferwyr, y rhieni a'r gofalwyr, yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin yn cael eu hystyried yn synhwyrol trwy holiaduron, trafodaethau ac ymweliadau cyson.  Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli'n gweithredu'n fuddiol ar eu cyngor er lles y plant.  O ganlyniad, mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn gydwybodol i sicrhau bod y lleoliad yn gwneud gwelliannau bwriadus.

Mae blaenoriaethau'r cynllun datblygu yn deillio'n uniongyrchol o'r broses hunanarfarnu.  Maent yn cyfateb yn gywir i'r meysydd ar gyfer gwella yn yr adroddiad hunanarfarnu.  Mae'r cynllun datblygu yn cynnwys camau ac amserlenni buddiol ar gyfer cyflawni'r targedau pwrpasol.  Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli yn monitro'r gwelliannau yn rheolaidd yn erbyn y meini prawf llwyddiant.  O ganlyniad, maent yn gwerthuso'r effaith ar ddysgu'r plant yn dda.  Enghraifft gadarn o hyn yw'r ffordd y mae'r lleoliad yn gweithredu ar awgrymiadau'r awdurdod lleol i wella'r ddarpariaeth, fel sicrhau cyfleoedd i wneud marciau yn yr ardal chwarae rôl.

Mae'r arweinydd a'r pwyllgor yn blaenoriaethu gwariant yn llwyddiannus, yn unol â'r camau gweithredu a nodwyd ar gyfer gwella. Mae hyn yn arwain at welliannau defnyddiol, fel gweithredu proffil y cyfnod sylfaen, gwella'r cynllunio a'r defnydd o gyfarpar TGCh ar lawr y lleoliad.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad ystod o bartneriaethau llwyddiannus. Mae'r arweinydd yn gweithio'n ddiwyd gyda phartneriaid i wella'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant. Mae cysylltiadau'r lleoliad â'r gymuned yn cefnogi dysgu'r plant yn bwrpasol ac yn cynnwys cynnal marchnad Nadolig yn flynyddol. O ganlyniad, mae digwyddiadau tebyg yn galluogi'r lleoliad i godi arian yn bwrpasol. Yn ogystal, mae'r cynigion am gyllid grant a'r gefnogaeth i gynnal yr adeilad gan rieni yn effeithiol.

Mae'r partneriaethau â'r ysgol, yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin wedi eu sefydlu'n gadarn. Mae'r partneriaethau hyn yn cefnogi'r lleoliad i ddatblygu a gwella'i arferion yn llwyddiannus. Mae hyn yn galluogi ymarferwyr i dargedu anghenion y plant yn gynnar, a defnyddio arbenigedd asiantaethau allanol i gefnogi unigolion a grwpiau penodol o blant. Yn ogystal, mae'r asiantaethau yn darparu cymorth gweinyddol a hyfforddiant cyfredol. O ganlyniad, maent yn cefnogi a herio'r lleoliad yn bwrpasol, yn enwedig ar wella'r cynllunio a gweithredu athroniaeth y cyfnod sylfaen.

Mae cysylltiadau cadarnhaol iawn yn bodoli â'r ysgol leol. Mae hyn yn cefnogi'r trefniadau pontio yn dda. Defnyddir systemau effeithiol ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth bersonol ac asesiadau'r plant o un sefydliad i'r llall. Mae athrawon yr ysgol yn ymweld â'r lleoliad yn rheolaidd ac mae'r lleoliad yn cymryd rhan mewn digwyddiadau'r ysgol fel y gwasanaeth diolchgarwch. O ganlyniad, mae'r trefniadau o fudd i'r plant wrth iddynt ymgynefino ag addysg gynradd.

Mae'r holl ymarferwyr yn cymryd camau gweithredol i gynnwys rhieni a gofalwyr ym mywyd y lleoliad. Maent yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn drwyadl am bob agwedd ar waith y lleoliad, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol a chylchlythyron. Mae'r lleoliad yn eu hannog i gynnig eu barn ar faterion i wella'r lleoliad trwy holiaduron a thrafodaethau cyson, sy'n arwain at welliannau fel gwella'r adnoddau yn yr ardal allanol. Yn ogystal, mae'r lleoliad yn cefnogi elusennau lleol a chenedlaethol, ac mae hyn yn meithrin tynerwch a gofal am eraill ymhlith y plant.

Mae'r ymarferwyr yn cysylltu a gweithio ag ystod eang o bartneriaid eraill sy'n gwneud cyfraniadau pwysig at wella'r ddarpariaeth. Mae'r rhain yn cynnwys asiantaethau sy'n cefnogi'r lleoliad â hyfforddiant cymorth cyntaf, cyrsiau hylendid bwyd a hyfforddiant ynglŷn ag amddiffyn plant.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn canolbwyntio'n drwyadl ar wella pob agwedd ar waith y lleoliad. Maent yn defnyddio'r adeilad a'r cyfarpar yn ddeallus ac yn dyrannu cyfrifoldebau'n synhwyrol.

Mae arferion arwain yr arweinydd a chefnogaeth ddeallus y pwyllgor rheoli yn galluogi ymarferwyr i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol yn effeithiol. Mae cydweithrediad y pwyllgor rheoli ymroddgar yn sicrhau bod gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr cymwys â hyfforddiant pwrpasol. O ganlyniad, maent yn bodloni anghenion y plant yn llwyddiannus.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn cael mynediad i adnoddau diddorol sy'n cefnogi eu dysgu yn fwriadus, fel caledwedd a meddalwedd TGCh a chyfarpar dringo a llithro yn yr awyr agored.  Mae'r lleoliad yn gymuned ddysgu ddeallus, lle mae cydweithrediad cadarn rhwng ymarferwyr a'r partneriaid eraill yn cefnogi bwriadau ac amcanion y lleoliad yn effeithiol.

Mae'r gweithdrefnau rheoli perfformiad yn drwyadl.  Maent yn sicrhau bod effaith yr arferion dyddiol a pharodrwydd yr ymarferwyr i greu gwelliannau yn creu profiadau dysgu diddorol ac addysgu cadarnhaol.

Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli yn defnyddio'r gyllideb yn bwrpasol ac yn blaenoriaethu gwariant yn unol â thargedau yn y cynllun datblygu yn effeithiol.  Maent yn sicrhau bod cyllid yn cael ei ddefnyddio'n ddoeth i wella'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant.  Maent yn gwneud defnydd effeithiol o grantiau allanol i wella'r ddarpariaeth ar gyfer y plant, fel grant sylweddol o archfarchnad leol i wella'r cyfarpar technolegol.

Mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian oherwydd y cynnydd cadarnhaol a wna'r plant o'u mannau cychwyn, y ddarpariaeth bwrpasol a'r arweinyddiaeth effeithiol.

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGC** | Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn isadran o’r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae’r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy’n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy’n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy’n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae’r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a’r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy’n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw’n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu’r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae’r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu’r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o’r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae’r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi’r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru’r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i’r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012 |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy’n anelu at roi’r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau’r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg |